Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 327 – 19 Tachwedd 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 326
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 326.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

Nododd bod tair Noson Gwylwyr wedi eu cynnal eleni, yng Nghaerfyrddin, Llangefni ac yn Yr Wyddgrug. Trefnwyd y nosweithiau i gyd-fynd gyda'r ymgyrch ddigidol, "Ymlaen â'r Sioe". Esboniodd y cadeirydd ei fod yn falch iawn i glywed ymateb y gynulleidfa yn ystod y nosweithiau, a bod llawer o sylwadau adeiladol wedi eu gwneud yn ystod y tri chyfarfod. Bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu cynnal cyn diwedd y newid i ddigidol ym mis Mawrth 2010.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Prydain Ddigidol
Nododd IJ bod Mesur yr Economi Digidol wedi ei restru yn Araith y Frenhines ddoe.

Newid i Ddigidol
Cyflwynodd IJ ddiweddariad ar y Gofrestr yn ymwneud a'r newid i ddigidol.

Nododd IJ ei bod wedi cyfarfod gyda swyddogion o Ofcom yn ddiweddar.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Cyflwyniad Ymchwil
- Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth